

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.15	<a href="mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru">SeneddDeisebau@cynulliad.cymru</a>

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 32)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd  
(Tudalennau 33 – 54)

2.2 P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad – dylid adolygu TAN 1  
(Tudalennau 55 – 65)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### Comisiwn y Cynulliad

3.1 P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar  
(Tudalennau 66 – 70)

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.2 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc  
(Tudalennau 71 – 75)

3.3 P-05-761 Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru  
(Tudalennau 76 – 84)



3.4 P-05-763 Diweddarau'r cyngor a roddir ynghylch strôc – B.E.F.A.S.T. – a helpu i achub bywydau a bywoliaethau

(Tudalennau 85 – 93)

## **Yr Economi a Thrafnidiaeth**

3.5 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

(Tudalennau 94 – 114)

3.6 P-05-716 Cludiant am Ddim ar y Trenau i Ddisgyblion Ysgol gyda Threnau Arriva Cymru

(Tudalennau 115 – 117)

3.7 P-05-770 Ailagor gorsaf Drenau Crymlyn

(Tudalennau 118 – 119)

3.8 P-05-774 Ewch Heibio'n Llydan ac yn Araf (Cymru)

(Tudalennau 120 – 129)

3.9 P-05-775 Caewch y bwlch sy'n ymwneud â gweithio trawsffiniol ac is-gontractio yn y gyfraith trwyddedu tacsis

(Tudalennau 130 – 136)

## **Yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

3.10 P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

(Tudalennau 137 – 140)

## **Addysg**

3.11 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb

(Tudalennau 141 – 148)

**4 Sesiwn dystiolaeth ar gyfer – P-05-736 Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch**

(09.50)

(Tudalennau 149 – 154)

Laura Williams, Deisebydd

Alun Thomas, Prif Weithredwr – Hafal

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

**6 Trafod y sesiynau tystiolaeth blaenorol**

6.1 P-05-736 Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch

6.2 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf

6.3 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

**7 Trafod y crynodeb – P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog**

(Tudalennau 155 – 162)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



### **P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tim Deere-Jones, ar ôl casglu 7,033 o lofnodion ar-lein a 138 ar bapur - cyfanswm o 7,171 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i atal y drwydded y mae wedi'i rhoi i NNB Genco, sy'n caniatáu gollwng hyd at 300,000 o dunelli o ddeunydd a halogwyd yn ymbelydrol, wedi'i garthu o wely'r môr ar safle pwerdy niwclear Hinkley Point, yn nyfroedd glannau Cymru.

Rydym hefyd yn gofyn bod cyfnod atal y drwydded yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i sicrhau bod asesiad llawn o'r effaith Amgylcheddol, dadansoddiad radiolegol cyflawn a samplu craidd yn cael eu cynnal o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawriad llawn o dystiolaeth annibynnol ac ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnal cyn rhoi caniatâd i ollwng unrhyw waddodion o Hinkley.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae Trwydded Forol 12/45/ML, a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn caniatáu gwaredu hyd at 300,000 o dunelli metrig o waddod morol a halogwyd yn ymbelydrol, wedi'i garthu o wely'r môr ar safle pwerdy niwclear Hinkley Point, ar safle dympio morol Cardiff Grounds yn agos at arfordir de Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i waith ddechrau ar y ddwy bibell newydd yn adweithydd niwclear Hinkley C.

Mae'r gwaddodion sydd i'w carthu wrth ymyl y pibellau gwastraff a ddefnyddir ar gyfer gollyngiadau o bedwar adweithydd presennol Hinkley. Mae dadansoddiad a gomisiynwyd gan asiantaethau Llywodraeth y DU yn dangos bod y gwaddod wedi'i halogi gan wastraff ymbelydrol a ryddhawyd i'r môr dros gyfnod o 50 mlynedd a mwy o waith ar safle Hinkley. Mae'r cyfrifiadau sy'n deillio o'r data swyddogol yn nodi y gallai'r gwaddodion carthu arfaethedig fod yn dal o leiaf 7 biliwn o Bqs o ymbelydredd, ond mae'r

adroddiadau yn nodi y byddai'r symiau y byddai pobl yn dod i gysylltiad â nhw'n isel iawn.

Mae gollyngiadau ymbelydrol Hinkley i'r môr yn cynnwys dros 50 o radio-niwclidau, ond dim ond tri ohonynt yr ymchwiliwyd iddynt drwy'r dadansoddiad. Felly, bydd cynnwys ymbelydredd gwirioneddol y gwaddodion yn llawer uwch na'r hyn a ddangosir drwy'r dadansoddiad sydd ar gael. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael hefyd yn awgrymu mai dim ond samplau arwynebol (0 i 5cm o ddyfnder) o'r gwaddodion a ddadansoddwyd, er bod ymchwil samplau craidd o fannau eraill ym Môr Iwerddon yn dangos y gall crynodiadau fod hyd at bum gwaith yn uwch ar ddyfnderoedd islaw 5cm.

Er bod deunydd ymbelydrol gwaddodol yn debygol o wasgaru i ddechrau, mae astudiaethau'n profi ei fod wedyn yn ailgronni ar wastadeddau llaid arfordirol ac aberol a morfeydd heli, a'i fod hefyd yn gallu cael ei drosglwyddo o'r môr i'r tir yn sgil gwyntoedd o'r môr a llifogydd arfordirol. Rydym yn nodi nad oes ymchwil ar yr hyn sy'n digwydd i ymbelydredd o'r fath yn nyfroedd glannau de Cymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn pryderu nad oes gwaith ymchwil digonol wedi digwydd ynghylch y risgiau amgylcheddol a'r risgiau i iechyd pobl yn sgil y gwaredu arfaethedig, a bod unrhyw gasgliadau sy'n seiliedig ar y data anghyflawn presennol yn annibynadwy.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Deiseb: Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Tachwedd 2017  
Petitions Committee | 21 November 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: [P-05-785](#)

Teitl y ddeiseb: **Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd**

Testun y Ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i atal y drwydded y mae wedi'i rhoi i NNB Genco, sy'n caniatáu gollwng hyd at 300,000 o dunelli o ddeunydd a halogwyd yn ymbelydrol, wedi'i garthu o wely'r môr ar safle pwerdy niwclear Hinkley Point, yn nyfroedd glannau Cymru.

Rydym hefyd yn gofyn bod cyfnod atal y drwydded yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i sicrhau bod asesiad llawn o'r effaith Amgylcheddol, dadansoddiad radiolegol cyflawn a samplu craidd yn cael eu cynnal o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawriad llawn o dystiolaeth annibynnol ac ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnal cyn rhoi caniatâd i ollwng unrhyw waddodion o Hinkley.

Mae Trwydded Forol 12/45/ML, a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn caniatáu gwaredu hyd at 300,000 o dunelli metrig o waddod morol a halogwyd yn ymbelydrol, wedi'i garthu o wely'r môr ar safle pwerdy niwclear Hinkley Point, ar safle dympio morol Cardiff Grounds yn agos at arfordir de Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i waith ddechrau ar y ddwy bibell newydd yn adweithydd niwclear Hinkley C.

Mae'r gwaddodion sydd i'w carthu wrth ymyl y pibellau gwastraff a ddefnyddir ar gyfer gollyngiadau o bedwar adweithydd presennol Hinkley. Mae dadansoddiad a gomisiynwyd gan asiantaethau Llywodraeth y DU yn dangos bod y gwaddod wedi'i halogi gan wastraff

ymbelydrol a ryddhawyd i'r môr dros gyfnod o 50 mlynedd a mwy o waith ar safle Hinkley. Mae'r cyfrifiadau sy'n deillio o'r data swyddogol yn nodi y gallai'r gwaddodion carthu arfaethedig fod yn dal o leiaf 7 biliwn o Bqs o ymbelydredd, ond mae'r adroddiadau yn nodi y byddai'r symiau y byddai pobl yn dod i gysylltiad â nhw'n isel iawn.

Mae gollyngiadau ymbelydrol Hinkley i'r môr yn cynnwys dros 50 o radio-niwclidau, ond dim ond tri ohonynt yr ymchwiliwyd iddynt drwy'r dadansoddiad. Felly, bydd cynnwys ymbelydredd gwirioneddol y gwaddodion yn llawer uwch na'r hyn a ddangosir drwy'r dadansoddiad sydd ar gael. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael hefyd yn awgrymu mai dim ond samplau arwynebol (0 i 5cm o ddyfnder) o'r gwaddodion a ddadansoddiwyd, er bod ymchwil samplau craidd o fannau eraill ym Môr Iwerddon yn dangos y gall crynodiadau fod hyd at bum gwaith yn uwch ar ddyfnderoedd islaw 5cm.

Er bod deunydd ymbelydrol gwaddodol yn debygol o wasgaru i ddechrau, mae astudiaethau'n profi ei fod wedyn yn ailgronni ar wastadeddau llaid arfordirol ac aberol a morfeydd heli, a'i fod hefyd yn gallu cael ei drosglwyddo o'r môr i'r tir yn sgil gwyntoedd o'r môr a llifogydd arfordirol. Rydym yn nodi nad oes ymchwil ar yr hyn sy'n digwydd i ymbelydredd o'r fath yn nyfroedd glannau de Cymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn pryderu nad oes gwaith ymchwil digonol wedi digwydd ynghylch y risgiau amgylcheddol a'r risgiau i iechyd pobl yn sgil y gwaredu arfaethedig, a bod unrhyw gasgliadau sy'n seiliedig ar y data anghyflawn presennol yn annibynadwy.

## Cefndir

### Gwaredu a dympio deunyddiau yn y môr

Mae'r DU yn un o bartion contractio'r [\*Confensiwn ar Atal Llygredd Morol drwy Ollwng Gwastraff a Sylweddau Eraill 1972\*](#) (Confensiwn Llundain). Mae'r confensiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bartion contractio gymryd mesurau effeithiol i gynnal yr amgylchedd morol a'i warchod rhag pob ffynhonnell o lygredd, gan gynnwys dympio ar y môr. Atgyfnerthir y drefn hon gan Erthygl 4 o [\*Confensiwn OSPAR\*](#), sy'n ceisio gwarchod môr gogledd-ddwyrain yr Iwerydd a chadw ei adnoddau. Mae'r confensiwn hwnnw'n cyfuno ac yn diweddarau Confensiwn Oslo 1972 ar ddympio gwastraff yn y môr a Chonfensiwn Paris 1974 ar ffynonellau o lygredd morol ar y tir. Daeth y confensiwn, a gafodd ei lofnodi a'i gadarnhau gan y Deyrnas Unedig, i rym ar 25 Mawrth 1998.

O dan [\*Reoliadau Gwastraff \(Cymru a Lloegr\) 2011\*](#), mae hierarchaeth yn bodoli o ran gwastraff, a gwaredu yw'r opsiwn olaf a gaiff ei ystyried. Felly, rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais i waredu gwastraff yn y môr ddangos bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i aildefnyddio deunyddiau a garthwyd, a hynny mewn modd buddiol. Fel y cyfryw, ni ddylid gwaredu unrhyw wastraff yn y môr os oes dewis amgen ar gael sy'n ddiogel ac yn ymarferol.

Yn ôl [Datganiad Polisi Morol y DU](#) (2011):

3.6.1 Most marine dredging and disposal is for the purposes of navigation and existing and future port development, though other works can take place to facilitate the construction of pipelines, outfalls and tunnels. Since 1998, in compliance with international obligations, the UK Administrations have – with some minor exceptions – only licensed the disposal at sea of capital and maintenance dredgings and small amounts of fish waste.


[...]

3.6.5 The primary environmental considerations include the potential risk to fish and other marine life from the release of sediments, chemical pollution and morphological changes including burial of seabed flora and fauna; hydrological effects; interference with other marine activities; increases in turbidity; increases in marine noise; possible adverse effects for designated nature conservation areas and potential destruction or destabilisation of known or unknown heritage assets. Removal of dredged material can also cause adverse impacts to the natural sedimentary systems.

3.6.6 When sediments are contaminated, dredging has the potential to cause significant environmental and health effects through exposure to contaminants in the dredging plume. These contaminants arise from diverse sources such as the legacy of industrial pollution, for example metals and poly chlorinated biphenyls, or historical and current use of antifoulants including tributyltin and heavy metals and new contaminants which are now finding their way into the marine environment, such as flame retardants including poly brominated diphenyl ethers.

Mae nifer o fannau gwaredu agored trwyddedig yn nyfroedd Cymru—er enghraifft, yn Sianel Bryste, Bae Abertawe a'r dyfroedd o gwmpas Sir Benfro ac Ynys Môn. Gellir gweld y rhain ar [borth cynllunio morol](#) Llywodraeth Cymru. Mae safle'r "Cardiff Grounds", sydd wedi'i leoli oddi ar arfordir Caerdydd, i'w weld yn Ffigur 1.

Mae carthu a gwaredu yn digwydd mewn nifer o [Ardaloedd Cadwraeth Arbennig](#) morol, sydd wedi'u dynodi o dan [y Gyfarwyddeb Cynefinoedd](#). Mae hyn yn cynnwys carthu cyfalaf ar gyfer datblygiadau newydd fel adeiladu neu ehangu porthladdoedd. Gwneir gwaith carthu cynnal a chadw yn rheolaidd er mwyn sicrhau mordwyo diogel mewn mannau fel dociau a dyfrffyrdd. Yn ôl [gwefan prosiect ardaloedd cadwraeth arbennig Morol y DU](#), mae 3,460,000 m<sup>3</sup> o ddeunydd yn cael ei garthu bob blwyddyn yn [ardal cadwraeth arbennig Môr Hafren](#) neu gerllaw'r ardal honno. Mae'r ardal cadwraeth arbennig honno'n rhan o [Safle Morol Ewropeaidd Môr Hafren](#), sy'n cael ei oruchwylio gan [Gymdeithas Awdurdodau Perthnasol Môr Hafren \(ASERA\)](#). Cafodd [cynllun rheoli drafft \(ASERA\) a chynlluniau gweithredu drafft awdurdodau perthnasol](#) eu cynhyrchu yn 2011.



Ffigur: 1 Mannau dypio ar y môr (safleoedd gwaredu) yn Sianel Bryste  
(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Porth Cynllunio Morol](#))

## Deddfwriaeth Trwyddedu Morol

Mae'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n cwmpasu'r drefn trwyddedu morol wedi'i chynnwys yn Rhan 4 – Trwyddedu Morol – o [Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009](#) ("Deddf y Môr"). O dan Adran 66 o Ddeddf y Môr, mae gweithgareddau morol trwyddedadwy yn cynnwys:

- Gollwng unrhyw sylwedd neu beth yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano o:
  - Unrhyw gerbyd, llestr, awyren neu strwythur morwro;
  - Unrhyw gynhwysydd sy'n arnofio; neu
  - Unrhyw strwythur ar dir a adeiladwyd neu a addaswyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o ollwng unrhyw solidau yn y môr.
- Adeiladu, altro neu wella gweithiau yn y môr neu uwch ei ben neu ar wely'r môr neu oddi tano;
- Defnyddio unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio i symud ymaith unrhyw sylwedd neu beth oddi ar wely'r môr; a
- Gwneud unrhyw fath o garthu, boed a yw'n cynnwys tynnu unrhyw ddeunydd o'r môr neu o wely'r môr ai peidio.

Yn aml, mae gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys samplu er mwyn cael cipolwg, atgyweirio morgloddiau neu argloddiau, gosod pontynau ac atgyweirio llithrfeydd. Mae nifer o eithriadau wedi'u nodi yng [Ngorchymyn Trwyddedu Morol \(Gweithgareddau Esempt\) \(Cymru\) 2011 \(PDF 244KB\)](#).

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer dyfroedd Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan – rhanbarth fewnforol Cymru. Bydd [Deddf Cymru 2017](#) yn datganoli pwerau trwyddedu morol i gynnwys rhanbarth alltraeth Cymru (o 12 milltir forol hyd at y llin ganol gydag Iwerddon, Lloegr ac Ynys Manaw). Ar hyn o bryd, mae'r gwaith trwyddedu morol yn rhanbarth alltraeth Cymru yn cael ei weinyddu gan y Sefydliad Rheoli Morol("MMO").

Cafodd y broses o weithredu'r gyfundrefn trwyddedu morol yn y rhanbarth fewnforol ei dirprwyo i Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2013, a hynny drwy [Orchymyn Trwyddedu Morol \(Dirprwyo Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2013](#). Caiff y drefn hon ei gweinyddu gan Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru (MLT). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi rhestr o [geisiadau trwyddedu morol a gyflwynwyd ac y penderfynwyd arnynt](#) ar ei wefan. Cyn y sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru, bu Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru yn ymdrin â thrwyddedu morol.

## Penderfynu ar gais

Mae Adran 69 o Ddeddf y Môr yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu, wrth benderfynu ar gais, roi sylw i'r materion a ganlyn:

- (1a) Yr angen i warchod yr amgylchedd;
- (1b) Yr angen i warchod iechyd pobl;



- (1c) Yr angen i atal ymyrraeth â defnyddiau dilys o'r môr, ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod.

O ran pwynt 1c, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cynnal asesiad effaith amgylcheddol o dan [Reoliadau Gwaith Morol \(Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol\) 2007](#) (fel y'u diwygiwyd) ac asesiad rheoliadau cynefinoedd o dan [Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010](#). Yn absenoldeb cynllun morol i Gymru, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, rhaid rhoi sylw i [Ddatganiad Polisi Morol y DU](#). Yn ogystal, rhaid i'r gweithgareddau hyn gydymffurfio, *inter alia*, â [Chyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol Ewropeaidd a Chyfarwydddeb Fframwaith Dŵr Ewrop](#).

**Gwneud penderfyniadau (yr hawl i apelio, galw i mewn, atal trwydded forol a chyhoeddi hysbysiadau atal)**

O dan Ddeddf y Môr, nid oes amserlen statudol yn gysylltiedig â gwneud penderfyniad ar drwydded forol. Mae gan ymgeiswyr [hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu](#) o dan Adran 71 o Ddeddf y Môr. Rhaid gwneud apeliadau yn unol â [Rheoliadau Trwyddedu Morol \(Apelio yn erbyn Penderfyniadau Trwyddedu\) Cymru 2011](#).

Yn Lloegr, o dan y [Gorchymyn Trwyddedu Morol \(Dirprwyo Swyddogaethau\) \(Diwygio\) 2015](#), gall yr Ysgrifennydd Gwladol alw cais trwyddedu i mewn. Nid yw Gorchymyn Dirprwyo Cymru yn cynnwys proses galw i mewn (adfer) o'r fath.

Mae Adran 72 o Ddeddf y Môr yn darparu gweithdrefn ar gyfer amrywio, atal neu ddirymu trwydded. Mae nifer o resymau dros atal trwydded, gan gynnwys achosion lle bu newid mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd neu iechyd pobl (3a), neu yn sgil gwybodaeth wyddonol bellach sy'n ymwneud â'r naill neu'r llall o'r ddau fater hynny (3b). Mae Adran 102 o Ddeddf y Môr yn caniatáu i'r awdurdod gorfodi (Gweinidogion Cymru) gyhoeddi hysbysiad at ddibenion atal gweithgarwch, yn amodol ar fodloni nifer o feini prawf.

Mae Adran 100 o Ddeddf y Môr yn rhoi pŵer penodol i Weinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu, roi cyfarwyddiadau o ran perfformiad swyddogaethau dirprwyedig o dan y Ddeddf. Ar ben hynny, mae Erthygl 11 o [Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru \(Sefydlu\) 2012](#) yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch arfer ei swyddogaethau.

**Trwydded Forol: 12/45/ML**

Ar 11 Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd trwydded forol 12/45/ML gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu (Gweinidogion Cymru), i'r trwyddedai – NNB Genco<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> Mae NNB GenCo Limited yn is-gwmni sy'n eiddo i EDF Energy.



Mae'r disgrifiad o'r sylweddau neu'r eitemau i'w hadneuo yn safle gwaredu "Cardiff Grounds" (LU110) fel a ganlyn:

Arising from the capital dredge (and secondary dredge during construction) associated with the preparation of the offshore site for the cooling water infrastructure for the proposed new nuclear power station at Hinkley Point. These arisings as described in Marine License Application dated 06 August 2012.

Arising from the capital dredge of the berthing pocket for the Hinkley Point C Project Temporary Jetty. These arisings as described in Marine Licence Application dated 13 September 2012.

Mae Adran 9 o'r drwydded yn nodi amodau penodol y prosiect, sy'n cynnwys yr amodau a ganlyn:

9.1 The Licence Holder must submit a proposal for a monitoring programme of the disposal site and immediate environs to Natural Resources Wales acting on behalf of the Licensing Authority for written approval at least **12 weeks** before any disposal operation. The scheme will include details of pre, during and post disposal operation surveys, and any actions to be taken as a consequence of the survey findings. The purpose of the scheme will be to enable the avoidance of significant build up of material and any consequent shallowing.

[...]

9.3 The Licence Holder must submit a proposal for a sediment sampling scheme of the source sites and immediate environs to Natural Resources Wales acting on behalf of the Licensing Authority for written approval at least 6 months before any disposal operation to occur after 4th March 2016. The scheme will include details of sampling grid, analyses suites (including any appropriate radiological assessment) and proposed format of a report determining the suitability of the material for disposal at site LU110 along with timescales for carrying out these actions.

9.4 The Licence holder must ensure the sediment sampling must be undertaken in line with the agreed scheme, as referenced in paragraph 9.3. Sampling scheme reports must be submitted to Natural Resources Wales acting on behalf of the Licensing Authority within the timescales agreed within the scheme.

9.5 The Licence Holder must ensure that no material is deposited after 4th March 2016 without written confirmation from NRW, acting on behalf of the Licensing Authority, that they are satisfied the material is suitable for deposit at site LU110.

## Hinkley Point C

Mae'r gwaddodion a gaiff eu carthu a'u gwaredu yn y môr o dan drwydded forol 12/45/ML yn gysylltiedig ag adeiladu system dŵr oeri ar gyfer [Hinkley Point C](#) yng Ngwlad yr Haf yn ne-orllewin Lloegr. Mae EDF Energy yn adeiladu dau adweithydd niwclear newydd yn Hinkley Point C, a fydd yn gallu cynhyrchu cyfanswm o 3,260MW o drydan. Mae'r safle wedi ei leoli ger Hinkley Point B, sy'n weithredol ar hyn o bryd, a Hinkley Point A, sy'n cael ei ddatgomisiynu. Cafodd y prosiect [ganiatâd cynllunio](#) ym mis Mawrth 2013 ar ffurf Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) o dan [Ddeddf Cynllunio 2008](#). Amcangyfrifir y bydd

200,000m<sup>3</sup> o ddeunydd ar y mwyaf, a bydd y deunydd hwn yn cael ei osod ar gychod a'i gludo i'r "Cardiff Grounds" i'w adneuo.

## Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Trafodwyd y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn ar sawl achlysur. Er enghraifft, gofynnwyd [cwestiwn yn ei gylch i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig gan Neil McEvoy AC ar 20 Medi 2017](#), a [gofynnwyd cwestiwn yn ei gylch i'r Prif Weinidog gan Leanne Wood AC ar 26 Medi 2017](#).

## Camau gan Lywodraeth Cymru

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig [ddatganiad ar ynni](#) ar 6 Rhagfyr 2016, a oedd yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

Er mwyn darparu ynni carbon isel sicr a fforddiadwy, mae angen cymysgedd o wahanol dechnolegau o wahanol feintiau, o raddfa gymunedol i brosiectau mawr. Yn y tymor canolig, mae hyn yn golygu newid i gynhyrchu carbon isel, sy'n cynnwys niwclear.

Mewn ymateb i [gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn](#) (26 Medi 2017) gan Leanne Wood AC ynghylch dymPIO deunydd o Hinkley Point C yn nyfroedd Cymru, dywedodd y Prif Weinidog:

Wel, mae hi'n dweud hanner y stori. Yn gyntaf oll, mae hi'n gwybod yn iawn nad Gweinidogion sy'n gyfrifol am drwyddedu; corff allanol sy'n gyfrifol— dyna'r holl bwynt—fel bod y wleidyddiaeth yn cael ei chymryd allan ohoni. Yr hyn yr wyf i wedi ei weld hyd yn hyn yw bod un person wedi dweud y gallai fod problem yma. Wel, wrth gwrs, mae angen rhoi sylw i'r mater hwnnw, ond mae'n rhaid i ni fod yn ofalus yn y fan yma gan fod y gwastraff o Wylfa yn mynd i Loegr, a byddai'n cau ar unwaith pe na byddai am waith ailbroesu Sellafield.

Mae ganddi safbwyntiau ar ynni niwclear na fyddwn i'n eu rhannu efallai, ond mae'n rhy syml i ddim ond dweud, 'Wel, gwastraff niwclear sy'n cael ei allforio o Loegr i Gymru yw hwn.' Rydym ni'n allforio llawer mwy allan i Sellafield. Felly, nid wyf yn derbyn bod hwn yn fater mewnfario ac allforio. Lle mae gennym ni ynni niwclear, mae'n bwysig bod cyfleusterau gwaredu digonol, ond mae cyflwyno hyn fel brwydr syml rhwng Cymru a Lloegr yn anwybyddu'r ffaith bod gennym ni ein gorsaf bŵer niwclear ein hunain, ac nad oes gennym ni ein cyfleusterau gwaredu ein hunain; rydym ni'n dibynnu ar Loegr i ymdrin â'r gwastraff sy'n dod o Wylfa.

Ar 29 Medi 2017, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet [ddatganiad](#) o dan y teitl 'Trwydded forol ar gyfer cael gwared ar ddeunydd a garthwyd wedi adeiladu Hinkley Point C'. Mae'n nodi:

I esbonio, mae'n bwysig nodi **nad trwydded yw hon ar gyfer cael gwared ar wastraff niwclear**. Trwydded yw hi i gael gwared ar waddodion sydd wedi'u codi o Aber Hafren. **Hyd yma, nid oes unrhyw waith gwaredu wedi'i gynnal**. Byddwn yn samplu unrhyw ddeunydd sydd wedi'i godi ac sydd am gael ei waredu a bydd yn rhaid i CNC roi cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn y gellir gwaredu unrhyw ddeunydd o dan y drwydded. Gallaf dawelu ofnau aelodau fod gennym broses asesu gadarn i ddiogelu amgylchedd y môr ac iechyd y cyhoedd, heddiw ac yn y dyfodol.

## Mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Amgylcheddol cysylltiedig:

Daeth ceisiadau i gael gwared ar ddeunydd wedi'i garthu i law'r Uned Caniatadau a chawsant eu prosesu yn unol â gofynion yr MCAA a Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2007 (fel y'i diwygiwyd) (MWR). Daeth dau gais ar wahân i law (gan i'r deunydd gael ei garthu o ddau safle – yr ardal o gwmpas y lanfa dros dro a gwaith arall yn y môr) ond un drwydded a roddwyd. Dengys y cofnodion bod y ceisiadau i waredu deunydd yn nyfroedd Cymru wedi ystyried yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol prosiect Hinkley Point C.

Mae'r broses cloriannu ceisiadau morol yn cynnwys asesiad trylwyr a chadarn o'r prosiectau ar sail y meini prawf canlynol:

- Diogelu amgylchedd y môr
- Diogelu iechyd pobl
- Peidio ag amharu ar weithgareddau dilys eraill yn y môr.

O gofio'r safle y daeth y deunydd ohono, sef Hinkley Point C, cynhaliodd Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) asesiad ymbelydrol fel rhan o broses cloriannu'r ceisiadau, ac ar ôl ymgynghori ag arbenigwyr (gan gynnwys y prif reoleiddiwr niwclear yn Asiantaeth yr Amgylchedd), **ni fynegwyd unrhyw ofidiau ynghylch y lefel radiolegol.**

Roedd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i'r ddeiseb hon, a ddaeth i law ar 24 Hydref 2017, yn nodi ei phryder ynghylch canfyddiadau'r cyhoedd ynglŷn â'r mater hwn ac yn cyfeirio at ei datganiad ysgrifenedig ar y mater. Nododd ei llythyr mai Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu morol yng Nghymru a oedd yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r drwydded ac mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n parhau i fod yn gyfrifol amdani, gan gynnwys sicrhau cydymffurfio â'r amodau sydd ar y drwydded. Yna, tynnodd y Gweinidog sylw at amodau 9.3 a 9.5 o'r drwydded (sydd wedi'u nodi uchod yn yr adran ar Drwydded Forol: 12/45/ML). Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i Gadeirydd y Pwyllgor ystyried nifer o bwyntiau wrth ystyried y ddeiseb, gan gynnwys y pwyntiau a ganlyn:

Mae nifer o amodau yn y drwydded forol sy'n galw am samplu a phrofi deunyddiau sydd i'w gwaredu ac mae'n rhaid i CNC gymeradwyo hyn cyn i unrhyw waredu ddigwydd. [...]

Nid oes unrhyw ddeunydd wedi'i waredu o dan delerau'r drwydded hyd yma a dim ond os bydd canlyniad samplu'r deunydd yn dangos ei fod yn ddiogel ac yn addas i'w waredu yn y môr fydd hyn yn digwydd.

Hefyd, yng ngoleuni rôl Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apeliadau o dan y drefn trwyddedu morol, dywedodd nad oedd yn briodol i Weinidogion gynnig sylwadau ar agweddau penodol o'r penderfyniadau a wneir ynghylch trwyddedu morol. Dywedodd y dylid cyflwyno sylwadau ynghylch y penderfyniad hwn i Cyfoeth Naturiol Cymru yn uniongyrchol, ac nid i Weinidogion Cymru.

Yn olaf, o ystyried bod pobl yn parhau i bryderu am y mater hwn, nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

...byddaf yn gofyn i'm swyddogion ystyried gyda CNC sut y gallant rannu gwybodaeth am y drwydded hon cyn gliried ac agored â phosibl i geisio lleihau pryderon pobl.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-785  
Ein cyf/Our ref LG/02382/17

David John Rowlands AC  
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebiadau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

Annwyl David

24 Hydref 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi, ynghylch Deiseb P-05-785 yn galw am 'atal Trwydded Forol 12/45/ML i waredu gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point i ddyfroedd ar arfordir Cymru ger Caerdydd'.

Rwy'n pryderu ynghylch ymdeimlad y cyhoedd ar y mater hwn a'r gefnogaeth ar gyfer y ddeiseb hon. Cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig ar 29 Medi i egluro'r sefyllfa gyda'r bwriad o leihau'r pryderon ar y mater. Mae'r datganiad ysgrifenedig llawn i'w weld ar y dolenni isod:

<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/marinelicencehinkleypoint/?lang=cy>

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod trwyddedu morol yng Nghymru, ac maent yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru. Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y drwydded hon (12/45/ML) ac maent yn parhau i fod yn gyfrifol amdani, gan gynnwys sicrhau cydymffurfio â'r amodau sydd ar y drwydded.

Hoffwn dynnu eich sylw at amodau 9.3 i 9.5 i'r prosiect:

9.3. Mae'n rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno cynnig ar gyfer cynllun samplo gwaddod o'r safle a'r ardal gyfagos i Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu ar ran Awdurdod Trwyddedu, ar gyfer ei gymeradwyo'n ysgrifenedig o leiaf 6 mis cyn i unrhyw waredu ddigwydd wedi'r 4 Mawrth 2016. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion grid samplo, canllawiau dadansoddi (gan gynnwys asesiad radiolegol priodol) a fformat arfaethedig ar gyfer adroddiad sy'n penderfynu a yw'r deunydd yn addas i'w waredu ar safle LU110 yn ogystal ag amserlen ar gyfer cyflawni hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

9.4. Mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod samplu'r gwaddod yn digwydd yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno, fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 9.3. Mae'n rhaid i adroddiadau cynlluniau samplu gael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni yn y cynllun.

9.5. Mae'n rhaid i Ddeiliad Trwydded sicrhau nad oes deunydd yn cael ei waredu wedi'r 4 Mawrth 2016 heb gadarnhad ysgrifenedig gan CNC, yn gweithredu ar ran Awdurdod Trwyddedu, fel eu bod yn fodlon bod y deunydd yn addas i'w waredu ar safle LU110.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebiadau, rwy'n gofyn ichi ystyried y pwyntiau canlynol fel rhan o'ch ystyriaeth ffurfiol cyntaf o'r ddeiseb hon:

- Mae nifer o amodau yn y drwydded forol sy'n galw am samplu a phrofi deunyddiau sydd i'w gwaredu ac mae'n rhaid i CNC gymeradwyo hyn cyn i unrhyw waredu ddigwydd.
- Fel arfer gorau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gofio eu swyddogaeth o ran apeliadau o dan y system trwyddedu morol ac felly nid yw'n briodol i Weinidogion gynnog sylwadau ar agweddau penodol o'r penderfyniadau ynghylch trwyddedu morol. Felly, mae'n ddrwg gennyf na fydd modd imi gynnog gwybodaeth ychwanegol i'm datganiad ysgrifenedig na chynnig unrhyw sylwadau pellach ar y mater hwn.
- Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y penderfyniad hwn i Cyfoeth Naturiol Cymru yn uniongyrchol, ac nid i Weinidogion Cymru.
- Fodd bynnag, mae'r cyhoedd yn Ne Cymru yn parhau i fod yn bryderus a byddaf yn gofyn i'm swyddogion ystyried gyda CNC sut y gallant rannu gwybodaeth am y drwydded hon cyn gliried ac agored â phosib i geisio lleihau pryderon pobl. Bydd angen hefyd i CNC ystyried y pryderon a godwyd yn ystod eu proses o wneud penderfyniad.
- Nid oes unrhyw ddeunydd wedi'i waredu o dan delerau'r drwydded hyd yma a dim ond os bydd canlyniadau samplu'r deunydd yn dangos ei fod yn ddiogel ac yn addas i'w waredu yn y môr fydd hyn yn digwydd.

Diolch am eich llythyr ar y mater hwn ac os y gallaf fod o unrhyw gymorth yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â mi.



**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

**P-05-785 Suspend Marine Licence 12/45/ML to dump radioactive marine sediments from the Hinkley Point nuclear site into Wales coastal waters off Cardiff – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 13.11.17**

**Outline/Summary submission from the Stop the Dump campaign to the Petitions Committee**

The Campaign to re-assess the decision to permit the disposal of 300,000 tonnes of radioactively contaminated sediment at the Cardiff Grounds disposal site is concerned that the environmental and human health (dose) risks from the proposed disposal have not been adequately researched and that any conclusions based on the current incomplete data, are unreliable.

The sediments to be dredged are adjacent to the waste pipes used for the discharges from Hinkley's 4 existing reactors. Analysis, commissioned by UK Government agencies, shows that the sediment is contaminated by radioactive waste discharged to sea over 50+ years of operations at the Hinkley site. Calculations derived from the official data indicate that the proposed dredge sediments may hold at least 7 billion Bqs of aggregated radioactivity, yet reports state that doses to humans would be very low.

We note that although sedimentary radioactive material is initially likely to disperse, a number of studies carried out in Wales have proved that it later re-concentrates in coastal and estuarine mudflats and salt marshes, and is also available for sea-to-land transfer during episodes of coastal flooding.

Two studies at Welsh coastal sites have demonstrated sea to land transfer of marine radioactivity, one has clearly shown the entry of marine radioactivity into coastal terrestrial food chains (dairy/meatstock) up to 10 miles inland, evidence which further implies the entry of marine radioactivity into arable and horticultural food chains and hence dietary doses (via terrestrial foodstuffs) of marine radioactivity. The presence of airborne marine radioactivity in terrestrial coastal zone environments plainly also implies the potential for inhalation doses

Additional concerns are based upon the following issues|:

**1: Absence of baseline data:**

a: Despite our ongoing review of the scientific literature, the Campaign has, to date, found no evidence of any (empirical or modelling) study of the long, medium and short term environmental behaviour and fate of radioactive material deposited into the Cardiff Grounds site.

b: Thus, there appears to be a complete absence of information information about how the (at least) 7 billion Bqs of aggregated radioactivity, attached to the sediments, will behave in the Welsh inshore waters, or where those contaminated sediments will eventually end up being deposited

c: apart from some small area investigations of liquid radioactive discharges from the GE Healthcare Ltd/Maynard Centre, consisting of a very limited sample set taken from sites between the Orchard Ledges and Lavernock Point, we have, to date, found no evidence of any wider research into the nature and concentrations of South Wales coastal environment radioactivity.

d: thus there appears to be a complete absence of any data on the current levels of radioactivity in the extensive inter-tidal and sub-tidal sedimentary environments (estuarine mudflats (Usk, Wye etc) and the very extensive coastal fringing inter-tidal mudflats along the coast of the Gwent levels etc.

*(NB: these are repeatedly shown by many studies to be the kind of environment where radioactively contaminated sediments suspended in the marine water column, will be deposited and where, as a result of such deposition, radioactivity concentrations will be elevated)*

e: without such baseline data, it is impossible to properly check/monitor the impact of the disposal of the 7 billion bqs of aggregated radioactivity in the Hinkley sediments

## **2: Incomplete data on the radiological status of the Hinkley sediments:**

a: Hinkley's radioactive discharges to sea contain over 50 radio-nuclides, but the analysis in support of the proposal to dump has only investigated 3 of them. Thus, the actual aggregated radioactivity content of the sediments will be much higher than indicated by the available analysis suggests.

b: the campaign does not believe that the analysis for only 3 of the 50+ radio nuclides believed to be constituents of the liquid waste streams of the Hinkley site, is





The Campaign requests series of actions as follows:

A: a full Environmental Impact Assessment including improved radiological surveying as advised and requested by this Campaign and the completion of the appropriate baseline data gathering studies recommended above

B: a Public Inquiry, or some form of “open hearing” of contra-indication independent evidence and a Public Consultation to take place before any dump of the Hinkley sediments is permitted. “

C public disclosure of precisely which Agency and which WG minister “signed off” on the Licence and what radiological expertise was available to NRW. (and/or their predecessors) and the Welsh Government

D: complete radiological analysis and core sampling, commissioned and scoped by Natural Resources Wales, after public hearings of contraindicating evidence, to be publicly reported and discussed, to take place before any dump of the Hinkley sediments is permitted.

Tim Deere-Jones (*Marine Radioactivity Research & Consultancy*) on behalf of the Stop the Dump Campaign

Diane McCrea  
Chair  
Natural Resources Wales

13 November 2017

Dear Diane,

### **Disposal of dredged sediment at sea under marine licence 12/45/ML.**

You will be aware of recent public interest in the marine licence you granted (11 July 2014) to NNB Genco for the disposal of dredged sediment in the Cardiff Grounds disposal site, relating to the construction by EDF Energy of a water cooling system for Hinkley Point C.

Assembly Members have raised concerns on this issue on several occasions in Plenary and the Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs has made related statements. This matter is also the subject of an Assembly petition, "Suspend Marine Licence 12/45/ML to dump radioactive marine sediments from the Hinkley Point nuclear site into Wales's coastal waters off Cardiff", which has been supported by 7,171 members of the public.

Given the level of public interest, the Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee agreed to receive a presentation from EDF Energy on this matter on 26 October. A number of issues were raised during that presentation on which the Committee would like further clarity.

#### **1. Compliance with Marine licence 12/45/ML**

Section 9.5 of the license requires that the Licence Holder must ensure that "no material is deposited after 4th March 2016 without written confirmation from NRW, acting on behalf of the Licensing Authority, that they are satisfied the material is suitable for deposit at site LU110".

**Question 1:** *Can you explain the process NRW will undertake to ensure that the dredged sediment is "suitable" for deposit in the Cardiff Grounds site?*

Section 72 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (hereafter the Marine Act) provides a procedure for "varying, suspending or revoking" a licence. The



grounds for suspension of a licence include where there has been a change in circumstances relating to the environment or human health, or because of an increase in scientific knowledge relating to either of those two matters.

**Question 2:** *Can you clarify how you will assess whether the grounds for suspension outlined in Section 72 have been met in relation to the results of the new samples acquired in May and reported to NRW in September 2017? Against what criteria would those grounds be assessed?*

## **2. Public health concerns**

Section 69 of the Marine Act requires the licensing authority to have regard to the need to protect human health when determining an application. You will be aware that there has been considerable public concern and media coverage about the potential impact on human health of the disposal of sediment in the Cardiff Grounds site, specifically in relation to the radioactivity of the sediment. The Assembly petition relating to Marine licence 12/45/ML states that “Hinkley’s radioactive discharges to sea contain over 50 radio-nuclides, but the analysis has only investigated 3 of them. Thus, the actual aggregated radioactivity content of the sediments will be much higher than indicated by the available analysis.”

**Question 3:** *EDF Energy has told the Committee that its initial tests investigated over 50 radio-nuclides but only three radio-nuclides were detected. Can you confirm this is the case?*

EDF Energy also informed the Committee that Cefas has undertaken recent testing for radiation on sediment samples from the area to be dredged. The Committee does not wish to cast doubt on the reliability of Cefas’ work, but given the public concern on this matter, we believe that any steps that can be taken to reassure the public should be given serious consideration.

**Question 4:** *Would you be prepared to consider commissioning a third party to review the findings of those tests? I trust that you will, in any event, share with this Committee and make public the findings of the most recent tests from May 2017.*

The Assembly petition sets out concerns that only surface samples of sediment have been analysed and, as a consequence, radioactive content below the surface may not be detected. EDF Energy reassured the Committee that, in its earlier work, Cefas had analysed samples from beneath the surface (up to 4.8m). They stated that the analysis had not identified abnormal levels of radio-nuclides.

**Question 5:** *What is NRW’s view on this issue? Is NRW satisfied that no further analysis of samples from beneath the surface is necessary?*



### 3.Environmental impact

Section 69 of the Marine Act requires the licensing authority to have regard to the need to protect the environment.

The Assembly petition relating to Marine licence 12/45/ML requests that the licence should be suspended to ensure that a “full Environmental Impact Assessment, complete radiological analysis and core sampling are carried out”.

**Question 6:** *Has an Environmental Impact Assessment been undertaken in relation to this specific licence? If not, why? Is NRW satisfied that in looking at this application for a licence to dispose dredged material at sea, that a robust process was followed that gave sufficient consideration to the protection of the marine environment and protection of human health?*

You will also be aware of concerns about the lack of reliable data to inform any assessment of the impact of the disposal of sediment in the Cardiff Grounds site.

**Question 7:** *Is NRW satisfied it has sufficient data and information on the material, such as sediment samples at depth and testing for radioactivity, to assess in a reliable way the impact of the disposal of the material?*

### 4. Monitoring

Section 9.1 of Marine licence 12/45/ML states that “The Licence Holder must submit a proposal for a monitoring programme of the disposal site and immediate environs to Natural Resources Wales acting on behalf of the Licensing Authority for written approval at least 12 weeks before any disposal operation. The scheme will include details of pre, during and post disposal operation surveys, and any actions to be taken as a consequence of the survey findings. The purpose of the scheme will be to enable the avoidance of significant build-up of material and any consequent shallowing.”

We understand from EDF Energy that the monitoring plan was received by NRW in October 2016 and approved in November 2016. They also advised that new samples acquired in May 2017 and associated analysis of these were reported to NRW in September 2017.

**Question 8:** *Can you explain the process undertaken by NRW to scrutinise this latest analysis and in doing so, satisfy itself that the conditions of the licence continue to be met?*

### 5. Public perception

Throughout this letter I have referred to concerns expressed by members of the public about the potential impact of the disposal of sediment in the Cardiff Grounds site. During its presentation, EDF Energy sought to reassure the Committee that the public concern was unfounded.



If that is the case, the Committee believes that there is a considerable amount of work needed to translate that message to the public, both locally and more widely. This view appears to be shared by the Cabinet Secretary, who has informed the Petitions Committee that she would ask officials to “consider with NRW how they can communicate information on this licence as clearly and openly as possible to alleviate concerns further.”

**Question 9:** *Can you inform the Committee of any advice NRW received from the Cabinet Secretary or her officials on this issue and the actions you are taking in response?*

**Question 10:** *Are you satisfied that the public were consulted sufficiently during the process under Section 69 of the Marine Act?*

## **6. Licensing process**

The Committee is aware that marine licensing is a function delegated to NRW on behalf of Welsh Ministers via the Marine Licensing (Delegation of Functions) (Wales) Order 2013.

**Question 11:** *Can you confirm that NRW is satisfied that the marine licensing process is robust, fit for purpose and that NRW has sufficient resources to administer it? Are there any aspects of the marine licensing process you believe could be improved, or any matters you would like to draw to this Committee’s attention?*

Copies of this letter will be sent to EDF Energy and Public Health Wales, who may wish to note its contents in relation to the public health concerns raised with Assembly Members. A copy will also be provided to the Chair of the Assembly’s Petitions Committee.

Yours sincerely,



**Mike Hedges AM**

**Chair of Climate Change, Rural Affairs and Environment Committee**

Cc: EDF Energy; Public Health Wales; Chair of the Assembly’s Petitions Committee.



### P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad – dylid adolygu TAN 1

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cllr Mike Priestley, ar ôl casglu 706 o lofnodion ar-lein.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN1) yn 2015 wedi arwain at dargedau tai blynyddol na ellir eu cyrraedd. Mae hyn wedi arwain at wahanu penderfyniadau cynllunio oddi wrth y broses gynllunio ddemocrataidd leol, ac wedi tanseilio Cynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig (CDLlau) ledled Cymru.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adfer y defnydd o "fethodoleg cyfraddau adeiladu yn y gorffennol" o fewn Nodyn Cyngor Technegol 1, ochr yn ochr â'r "fethodoleg weddilliol". Byddai hyn yn sicrhau bod Cynghorau yn gallu cynnal asesiadau anghenion cyflenwi tir deallus a chredadwy. Mae perfformiad o ran cyflenwi tai yn y gorffennol wedi adlewyrchu amodau economaidd a gallu a gwydnwch y diwydiant adeiladu lleol.

Er mwyn sicrhau cyflenwad o dir hygyrch a chyflawnadwy, ac i gydbwysu'r angen am dai gyda'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd a'n treftadaeth, mae'n hanfodol bod amodau economaidd a chynhwysedd y diwydiant adeiladu lleol yn cael eu hystyried mewn cyfrifiadau blynyddol o ran y Cyflenwad Tir Pum mlynedd ar gyfer Tai.

Mae newidiadau i TAN1 wedi gorfodi Cynghorau Lleol i ganiatáu datblygiadau tai sy'n fwy na'r hyn a ystyrir yn alw lleol. Mae'r datblygiadau hyn yn aml ar raddfa fawr ac yn cael effaith andwyol ar y llain werdd a threftadaeth ein Sir, wrth i ardaloedd trefol a gwledig or-ehangu. Mae hyn, yn ei dro, yn rhoi galwadau ychwanegol ar wasanaethau sydd eisoes wedi'u hymestyn, fel Meddygon Teulu, Ysbytai, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion.

Mae tynnu methodoleg y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol yn 2015 yn achosi i nifer cynyddol o Awdurdodau Lleol ddatgan diffyg Cyflenwad Tir am bum mlynedd. Mae hyn, yn ei dro, yn gorfodi Cynghorau Lleol, yn erbyn eu hewyllys a'u tueddiad naturiol, i gymeradwyo ceisiadau datblygu hapfasnachol ar dir maes glas sy'n sensitif yn lleol, tir heb ei ddyrannu yn eu

CDLlau a, phan na roddir cymeradwyaeth leol i'r ceisiadau hapfasnachol hyn, mae penderfyniadau democrataidd lleol yn cael eu gwrthdroi ar apêl, yn benodol oherwydd diffyg Cyflenwad Tir 5 mlynedd ar gyfer Tai.

### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Yn 2014, roedd gan Gyngor Sir Conwy gyflenwad tir am fwy na saith mlynedd pan archwiliwyd ei Gynllun Datblygu Lleol gan yr Arolygydd Cynllunio, ac y cymeradwywyd ef. Lai na 12 mis yn ddiweddarach roedd y newidiadau i TAN 1 wedi lleihau cyflenwad tir Sir Conwy i lai na phum mlynedd. Mae hyn wedi lleihau ymhellach gyda chyfrifiadau blynyddol o'r cyflenwad tir a fu ers hynny. Yn 2017, mae cyflenwad tir Conwy yn 3.1 blynedd erbyn hyn, o ganlyniad uniongyrchol i'r newidiadau i TAN1, ac mae'r Gyngor yn cael ceisiadau datblygu hapfasnachol ar gyfer tir nad yw wedi'i ddyrannu yn y CDLI, er bod tir a ddyrannwyd ar gael. Pe bai methodoleg y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol yn cael ei ganiatáu o hyd, byddai gan Sir Conwy gyflenwad am 8.5 mlynedd heddiw.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar TAN1 yn dweud wrth Gyngorau Lleol sut i gyfrifo eu cyflenwad o dir tai. Dylai pob Gyngor feddu ar ddigon o dir i ddiwallu anghenion ar gyfer pum mlynedd o adeiladu tai. Yn y TAN1 blaenorol, roedd dau ddull o gyfrifo faint o dir yr oedd ei angen:

1. Y dull gweddilliol, sy'n seiliedig ar gyfanswm yr angen am dai o Gynllun mabwysiedig.
2. Y dull cyfraddau adeiladu yn y gorffennol, gan ddefnyddio'r cyfraddau adeiladu tai ar sail y 5 mlynedd ddiwethaf i ragweld y drefn am y 5 mlynedd nesaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydbwyso ein penderfyniadau a'n gweithredoedd o ran effaith heddiw ac effaith yn y dyfodol. Yn sicr, oni ddylem ddefnyddio'r meddylfryd hwn i gynllunio tir a'r defnydd o dir? Mae polisi presennol Llywodraeth Cymru yn gorfodi i dir glas allweddol gael ei goncritio ac i ddod yn dir llwyd yn barhaol. Gwrthodwyd yn chwyrn y cam o osod a chyfyngu ar y defnydd o'r "fethodoleg weddilliol" yn ystod y cyfnod ymgynghori a thu hwnt, ond anwybyddwyd lleisiau'r Cynghorau Lleol. Mae angen i Gyngorau Lleol allu:



- amddiffyn treftadaeth a'r amgylchedd, a'r defnydd o dir glas sensitif, ac ymarfer disgresiwn, dyfarnu a rheolaeth leol o ran ble y mae angen datblygu a ble y'i caniateir.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberconwy
- Gogledd Cymru

## Deiseb: P-05-786 Achub ein Cefn Gwlad – Adolygu TAN

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Tachwedd 2017  
Petitions Committee | 21 November 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-786

Teitl y ddeiseb: **Achub ein Cefn Gwlad – Adolygu TAN 1**

Testun y ddeiseb:

Mae newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN1) yn 2015 wedi arwain at dargedau tai blynyddol na ellir eu cyrraedd. Mae hyn wedi arwain at wahanu penderfyniadau cynllunio oddi wrth y broses gynllunio ddemocrataidd leol, ac wedi tanseilio Cynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig (CDLlau) ledled Cymru.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adfer y defnydd o "fethodoleg cyfraddau adeiladu yn y gorffennol" o fewn TAN 1, ochr yn ochr â'r "fethodoleg weddilliol". Byddai hyn yn sicrhau bod Cynghorau yn gallu cynnal asesiadau anghenion cyflenwi tir deallus a chredadwy. Mae perfformiad o ran cyflenwi tai yn y gorffennol wedi adlewyrchu amodau economaidd a gallu a gwydnwch y diwydiant adeiladu lleol.

Er mwyn sicrhau cyflenwad o dir hygyrch a chyflawnadwy, ac i gydbwysu'r angen am dai gyda'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd a'n treftadaeth, mae'n hanfodol bod amodau economaidd a chynhwysedd y diwydiant adeiladu lleol yn cael eu hystyried mewn cyfrifiadau blynyddol o ran y Cyflenwad Tir Pum mlynedd ar gyfer Tai.

Mae newidiadau i TAN1 wedi gorfodi Cynghorau Lleol i ganiatáu datblygiadau tai sy'n fwy na'r hyn a ystyrir yn alw lleol. Mae'r datblygiadau hyn yn aml ar raddfa fawr ac yn cael effaith andwyol ar y llain werdd a threftadaeth ein Sir, wrth i ardaloedd trefol a gwledig orhangu. Mae hyn, yn ei dro, yn rhoi galwadau ychwanegol ar wasanaethau sydd eisoes wedi'u hymestyn, fel Meddygon Teulu, Ysbytai, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion.

Mae tynnu methodoleg y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol yn 2015 yn achosi i nifer

cynyddol o Awdurdodau Lleol ddatgan diffyg Cyflenwad Tir am bum mlynedd. Mae hyn, yn ei dro, yn gorfodi Cynghorau Lleol, yn erbyn eu hewyllys a'u tueddiad naturiol, i gymeradwyo ceisiadau datblygu hapfasnachol ar dir maes glas sy'n sensitif yn lleol, tir heb ei ddyrannu yn eu CDLlau a, phan na roddir cymeradwyaeth leol i'r ceisiadau hapfasnachol hyn, mae penderfyniadau democrataidd lleol yn cael eu gwrthdroi ar apêl, yn benodol oherwydd diffyg Cyflenwad Tir 5 mlynedd ar gyfer Tai.

Yn 2014, roedd gan Gyngor Sir Conwy gyflenwad tir am fwy na saith mlynedd pan archwiliwyd ei Gynllun Datblygu Lleol gan yr Arolygydd Cynllunio, ac y cymeradwywyd ef. Lai na 12 mis yn ddiweddarach roedd y newidiadau i TAN 1 wedi lleihau cyflenwad tir Sir Conwy i lai na phum mlynedd. Mae hyn wedi lleihau ymhellach gyda chyfrifiadau blynyddol o'r cyflenwad tir a fu ers hynny. Yn 2017, mae cyflenwad tir Conwy yn 3.1 blynedd erbyn hyn, o ganlyniad uniongyrchol i'r newidiadau i TAN1, ac mae'r Cyngor yn cael ceisiadau datblygu hapfasnachol ar gyfer tir nad yw wedi'i ddyrannu yn y CDLI, er bod tir a ddyrannwyd ar gael. Pe bai methodoleg y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol yn cael ei ganiatáu o hyd, byddai gan Sir Conwy gyflenwad am 8.5 mlynedd heddiw.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar TAN1 yn dweud wrth Gynghorau Lleol sut i gyfrifo eu cyflenwad o dir tai. Dylai pob Cyngor feddu ar ddigon o dir i ddiwallu anghenion ar gyfer pum mlynedd o adeiladu tai. Yn y TAN1 blaenorol, roedd dau ddull o gyfrifo faint o dir yr oedd ei angen:

1. Y dull gweddilliol, sy'n seiliedig ar gyfanswm yr angen am dai o Gynllun mabwysiedig.
2. Y dull cyfraddau adeiladu yn y gorffennol, gan ddefnyddio'r cyfraddau adeiladu tai ar sail y 5 mlynedd ddiwethaf i ragweld y drefn am y 5 mlynedd nesaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydbwysu ein penderfyniadau a'n gweithredoedd o ran effaith heddiw ac effaith yn y dyfodol. Yn sicr, oni ddylem ddefnyddio'r meddylfryd hwn i gynllunio tir a'r defnydd o dir? Mae polisi presennol Llywodraeth Cymru yn gorfodi i dir glas allweddol gael ei goncritio ac i ddod yn dir llwyd yn barhaol. Gwrthodwyd yn chwyn y cam o osod a chyfyngu ar y defnydd o'r "fethodoleg weddilliol" yn ystod y cyfnod ymgynghori a thu hwnt, ond anwybyddwyd lleisiau'r Cynghorau Lleol. Mae angen i Gynghorau Lleol allu amddiffyn treftadaeth a'r amgylchedd, a'r defnydd o dir glas sensitif, ac ymarfer disgrisiwn, dyfarnu a rheolaeth leol o ran ble y mae angen datblygu a ble y'i caniateir.

## Cefndir

Nodir polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Gymru ym [Mholisi Cynllunio Cymru \(PCC\)](#). Mae PCC yn cael ei gefnogi gan nifer o [Nodiadau Cyngor Technegol](#) sy'n darparu arweiniad manylach ar agweddau penodol ar bolisi cynllunio. Mae'r ddeiseb hon yn ymwneud â [Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 1: Cyd Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai](#).

Mae PCC yn nodi:

9.2.2. Bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr anghenion o ran tai yn eu hardaloedd dros gyfnod y cynllun. Bydd Amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o Aelwydydd, a gyflwynir fesul awdurdod lleol, ynghyd â'r Asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol, yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun. Bydd materion eraill hefyd yn rhan o'r sylfaen honno, er enghraifft, yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni, y cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg, darpariaethau mewn strategaethau corfforaethol, a'r gallu i gyflawni'r cynllun.

...

9.2.3 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol **sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd, neu y bydd digon ar gael yn y dyfodol, i ddarparu cyflenwad pum mlynedd o dir** ar gyfer tai, wedi ei farnu yn ôl yr amcanion cyffredinol a graddfa a lleoliad y datblygu y darperir ar ei gyfer yn y cynllun datblygu. Mae hyn yn golygu bod rhaid i safleoedd fod yn rhydd, neu'n hawdd i'w rhyddhau, oddi wrth gyfyngiadau ar gynllunio, cyfyngiadau ffisegol a chyfyngiadau perchenogaeth, a'i bod yn ymarferol yn economaidd eu datblygu er mwyn creu a chefnogi cymunedau cynaliadwy lle y bydd pobl eisiau byw. Rhaid bod digon o safleoedd sy'n addas ar gyfer yr ystod lawn o fathau o dai. Er mwyn ystyried tir fel tir sydd ar gael yn wirioneddol, rhaid iddo fod yn safle sydd wedi'i nodi mewn Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynlluniau datblygu a'r modd y cânt eu gweithredu er mwyn sicrhau y caiff digon o dir ei gyflwyno i'w ddatblygu yn ardal pob awdurdod cynllunio lleol, ac na fydd cyfyngiadau afresymol ar ddatblygu economaidd a chyfleoedd perthnasol am swyddi.

Mae PCC hefyd yn datgan:

2.14.4 Mater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, yn y lle cyntaf, yw penderfynu, drwy fonitro ac adolygu'r cynllun datblygu, a yw polisiau mewn CDLI a fabwysiadwyd wedi dyddio at ddibenion penderfynu ar gais cynllunio. Lle mae hyn yn wir, dylai awdurdodau cynllunio lleol roi llai o bwys ar y cynllun a throi at ystyriaethau perthnasol eraill megis polisi cynllunio cenedlaethol, gan gynnwys rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.

Mae TAN 1 yn nodi:

6.2 Dylai ffigur y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai hefyd gael ei drin fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Pan fo'r astudiaeth gyfredol yn dangos bod y cyflenwad tir yn llai na'r cyflenwad 5 mlynedd gofynnol, neu lle nad oedd modd i'r awdurdod cynllunio lleol gynnal astudiaeth ... , dylid rhoi pwyslais sylweddol ar yr angen i gynyddu'r cyflenwad wrth ddelio â cheisiadau cynllunio os yw'r datblygiad fel arall yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu a pholisiau cynllunio cenedlaethol.

Cyhoeddwyd y TAN 1 diwygiedig yn 2015 a chyflwynodd ddull newydd o gyfrifo cyflenwad tir ar gyfer tai – y dull 'gweddilliol'. Cyn 2015 gallai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r dull 'cyfraddau adeiladu yn y gorffennol' amgen. Gwnaeth Llywodraeth Cymru [ymgyngori ar y newidiadau i TAN 1 yn 2014](#).

O dan y dull gweddilliol, i fodloni'r gofynion ar gyfer cyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai, rhaid cymharu'r swm o dir y cytunwyd ei fod ar gael yn wirioneddol gyda'r gofyniad tai sy'n weddill yn y CDLI a fabwysiadwyd. Mae TAN 1 yn dangos y fformiwla ar gyfer y cyfrifiad hwn ar dudalen 27. Mae'r fethodoleg 'cyfraddau adeiladu yn y gorffennol' wedi'i seilio ar berfformiad y diwydiant adeiladu tai yn y gorffennol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Grynodeb o'r Ymatebion](#) i'r ymgyngoriad yn 2014. Rhannwyd ymatebwyr ar y cwestiwn o wneud y dull gweddilliol yr unig fethodoleg a ganiateir ar gyfer cyfrifo cyflenwad tir ar gyfer tai – 21 (44%) o blaid a 22 (46%) yn erbyn. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth amlwg ym marn busnesau ac awdurdodau cynllunio lleol – roedd pob busnes o blaid (15), ynghyd â phedwar (17%) o awdurdodau cynllunio lleol; i'r gwrthwyneb, gwnaeth 19 (79%) o awdurdodau cynllunio lleol anghytuno.

## Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr i'r Pwyllgor, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, yn nodi safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, ac yn datgan:

Prior to the 2015 revision of TAN 1 Local Planning Authorities could use the alternative 'past build rates' methodology of calculating housing land supply, however its use was generally restricted to those Authorities without an adopted development plan. Being based on the past performance of the house-building industry, the methodology did not relate to the housing delivery required to meet the needs of local communities and by simply rolling forward past delivery rates, which in many cases were too low, reinforced housing affordability problems. In addition, given the significantly improved position regarding development plan coverage across Wales, use of the past build rates methodology was no longer considered appropriate.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i ddweud y gall awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r dull cyfraddau adeiladu yn y gorffennol fel cymharydd, os dymunant wneud hynny, wrth asesu darpariaeth yn erbyn y gofynion tai fel rhan o'u proses monitro CDLI flynyddol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd:

I recognise Local Planning Authorities without a five-year housing land supply may receive speculative planning applications for housing developments. All such applications should be determined in accordance with the relevant policies in the approved or adopted development plan for the area, including the principle of sustainable development. The lack of a five-year housing land supply may be one of the considerations in determining a planning application, however applications which do not meet the relevant policy requirements may be refused by the Authority.

# Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad

Cyflwynodd Janet Finch–Saunders AC ddau gwestiwn ysgrifenedig ar 19 Medi 2017:

WAQ74200. Pa ystyriaeth y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei roi i ddiwygio TAN 1 er mwyn caniatáu defnyddio'r dull cyfraddau adeiladu yn y gorffennol wrth gyfrifo cyflenwad tir tai?

WAQ74201. Pryd fydd Ysgrifennydd y Cabinet yn adolygu TAN 1 Adran 7. 5. 1 i ganiatáu ystyried methodolegau cyflenwi tir eraill?

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 25 Medi 2017:

As part of the revisions to TAN 1 in 2015, the use of the alternative methodology for calculating housing land supply, based on past build rates, was removed. This methodology was based on the past underperformance of the house-building industry and does not relate to delivery against the housing requirements established by Local Planning Authorities in their Local Development Plans to meet the needs of their communities.

Mae polisi a chanllawiau cynllunio, gan gynnwys TAN 1, yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

## Y Cyfarfod Llawn

Roedd Janet Finch–Saunders AC eisoes wedi [holi Ysgrifennydd y Cabinet yn y Cyfarfod Llawn](#) ar 14 Medi 2016:

... Wrth gwrs, mae effeithiau canlyniadol y newidiadau i'r cyfrifiad argaeledd tir ar gyfer tai o dan y TAN1 diwygiedig bellach yn dechrau dod yn amlwg i breswylwyr yng Nghonwy ac ym mhob awdurdod ledled Cymru. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar TAN 1, roedd awdurdodau cynllunio lleol yn gyffredinol yn anghytuno â defnyddio'r fethodoleg weddilliol yn unig ar gyfer cyfrifo'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai—dull sydd, yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn brin o realaeth ac yn agored i gael ei wrydroi gan gyfraddau adeiladu i gynhyrchu canlyniadau afrealistig ac anghyraeddadwy, ac sy'n arwain at golli llawer o'n safleoedd maes glas ar yr un pryd. O ystyried sefyllfa o'r fath, Ysgrifennydd y Cabinet, a wnewch chi edrych ar hyn yn yr adolygiad mis Hydref nesaf o'r cynllun datblygu lleol ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru ac mewn gwirionedd yn rhoi synnwyr mwy cyffredin i'r broses? Oherwydd, credwch fi, bydd y safleoedd sy'n dod ymlaen yn awr yng Nghonwy yn ddinistriol a bydd colledion enfawr i'n safleoedd maes glas.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

Rwy'n credu eich bod newydd ddweud yn union pam y dylid cael yr adolygiad o TAN 1. Rwy'n credu bod y nodyn cyngor technegol wedi cael ei ddiwygio am nad oedd safleoedd yn dod ar gael ac rwy'n credu ei fod wedi datgelu'r hyn a oedd yn digwydd o'r blaen. Felly, rwy'n credu ei fod yn ymwreiddio yn awr. Mae wedi gosod methodoleg ar gyfer cynnal yr adolygiad. Gellir cymhwyso honno'n gyson ledled Cymru, ac rwy'n credu bod hynny'n rhoi dangosydd allweddol i awdurdodau lleol ar gyfer monitro'r ddarpariaeth dai i ddiwallu'r gofynion a nodir yn eu Cynllun Datblygu Lleol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei

gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-786  
Ein cyf/Our ref LG/02302/17

David John Rowlands AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

[government.committee.business@llyw.cymru](mailto:government.committee.business@llyw.cymru)

11 Hydref 2017

Annyl David

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 2 Hydref ynghylch Deiseb P-05-786 gan y Cynghorydd Mike Priestly ynglŷn â Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1).

Mae Cynllun Datblygu Lleol yn nodi gweledigaeth Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer ei ardal, ar sail tystiolaeth leol, ac maent yn fodd i ddylanwadu ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys nodi'r angen am dai a dyrannu safleoedd i fodloni'r angen hwnnw yn unol ag amcanion y cynllun, tystiolaeth o asesiadau'r awdurdod o'r farchnad dai leol a chan ystyried amcanestyniadau anghenion tai gan Lywodraeth Cymru.

I fod yn effeithiol, dylai'r cyflenwad o dir yr Awdurdod sydd ar gael ar gyfer tai fod yn seiliedig ar yr angen am dai y mae wedi'i nodi yn ei gynllun datblygu lleol, a dylai fod yn ymarferol. Nodir hyn ym mholisi Llywodraeth Cymru, *Polisi Cynllunio Cymru*, ac mae'n sail i'r fethodoleg "weddillio" a nodir yn TAN 1. Y nod yw sicrhau bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal digon o dir addas i fodloni anghenion eu cymunedau o ran tai yn unol â'u strategaethau cynllun datblygu lleol. Hyn yw'r polisi ers cyhoeddi *Polisi Cynllunio Cymru* yn 2002.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


**Tudalen y pecyn 64**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Cyn diwygio TAN 1 yn 2015, gallai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio methodoleg oedd yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu blaenorol i gyfrifo'r cyflenwad o dir a oedd ar gael ar gyfer tai. Fodd bynnag, fel arfer, dim ond yr Awdurdodau hynny heb gynllun datblygu allai ddefnyddio'r fethodoleg hon. Gan fod y fethodoleg hon yn seiliedig ar berfformiad y diwydiant adeiladu tai yn y gorffennol lle'r oedd y cyfraddau adeiladau'n aml yn rhy isel, nid yw'n addas ar gyfer cyfrifo anghenion tai cymunedau lleol, ac mae hyn wedi cyfrannu at broblemau o ran y gallu i fforddio prynu tŷ. Yn ogystal, yng ngoleuni sefyllfa well o lawer o ran cynlluniau datblygu ar draws Cymru, ystyriwyd nad oedd defnyddio'r cyfraddau adeiladu blaenorol yn briodol. Serch hynny, caniateir awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio'r fethodoleg hon o hyd fel cymharydd wrth asesu darpariaeth yn erbyn gofynion tai fel rhan o adroddiad monitro blynyddol y cynllun datblygu lleol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i awdurdodau cynllunio lleol fonitro'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau a nodir yn eu cynllun datblygu lleol, gan gynnwys gofynion tai a'u tuedd, ac ystyried camau gweithredu posibl. Gallai'r camau gweithredu gynnwys adolygu'r cynllun datblygu lleol yn gyfan gwbl neu'n rhannol a dyrannu safleoedd amgen ar gyfer tai neu adolygu'r angen am dai gan gymryd i ystyriaeth capasiti cwmnïau adeiladu tai.

Rwy'n cydnabod y gallai awdurdodau cynllunio lleol sydd heb gyflenwad pum mlynedd o dir sydd ar gael ar gyfer tai gael ceisiadau cynllunio tybiannol i adeiladu tai. Dylid penderfynu pob cais yn unol â'r polisiau perthnasol sydd yn y cynllun datblygu lleol cymwys ar gyfer yr ardal, gan gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Gallai'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir sydd ar gael ar gyfer tai fod yn un o ystyriaethau wrth benderfynu cais cynllunio. Fodd bynnag, caniateir yr Awdurdod i wrthod ceisiadau nad ydynt yn ateb gofynion y polisi perthnasol.

Yn olaf, mae cyfrifo'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai o dan y fethodoleg a nodir yn TAN 1 yn rhan integredig o lunio a monitro cynllun datblygu lleol. Mae monitro'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai o dan TAN 1 wedi tynnu sylw at ddiffyg tir addas. Fe gadarnhawyd hyn gan ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos bod hyfywedd yn un o'r ffactorau allweddol wrth nodi safleoedd datblygu addas. Ar hyn o bryd mae argymhellion perthnasol yr ymchwil sy'n ymwneud â pholisiau cenedlaethol yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiadau presennol *Polisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol*.



**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

# Eitem 3.1

## **P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu gwasanaeth isdeitlo ac iaith arwyddion pan fydd dadleuon a thrafodion y Cynulliad yn cael eu darlledu ar y teledu, er mwyn i'r 300,000 o bobl sydd â byddardod a nam ar y clyw yng Nghymru ddilyn y broses ddemocrataidd fel pobl eraill.

**Prif ddeisebydd:** Mervyn James

**Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 21 Ionawr 2014

**Nifer y llofnodion:** 25



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

David J Rowlands AC  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Eich cyf:  
Ein cyf: PO243/EJ/DT

9 Tachwedd 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr ar 7 Awst 2017 lle gwnaethoch ofyn a fyddai'r Comisiwn yn archwilio opsiynau ar gyfer datblygu cynllun i wneud Iaith Arwyddion Prydain a/neu is-deitlo ar gael ar gyfer Cwestiynau eraill y Cynulliad (a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog) a thrafodion o fewn amserlen addas.

Mewn cyfarfod diweddar, trafododd y Comisiynwyr y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau Iaith Arwyddion Prydain ac is-deitlo, yn ogystal â chynlluniau cyfredol i ymestyn y gwasanaethau hyn o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael a'r cyfyngiadau technolegol wrth ddarparu is-deitlau cywir o drafodion byw.

Roeddwn yn meddwl y byddai o gymorth i'r Pwyllgor grynhoi'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu, pa newidiadau a gynllunnir, a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Yn gywir

Elin Jones AC  
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

Tudalen y pecyn 67



## **Yr hyn rydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd ac opsiynau**

### *Cofnod y Trafodion a thrawsgrifiadau'r pwyllgorau*

Mae trawsgrifiadau trafodion y Cyfarfod Llawn yn darparu adnodd hygyrch yr ydym yn ei gyhoeddi ar ffurf fersiwn ddrafft ar sail dreigl. Mae'n dechrau ymddangos tuag awr ar ôl dechrau'r Cyfarfod Llawn a chaiff ei ddiweddarau bob chwarter awr. Rydym yn cyhoeddi'r trawsgrifiadau hyn i ddechrau yn yr iaith a siaredir gyda thrawsgrifiad o'r cyfieithiad ar y pryd lle siaredir Cymraeg. Mae hefyd yn cynnwys lincs i dudalennau bywgraffiad yr Aelodau.

Cyhoeddir y Cofnod ei hun o fewn 24 awr ac mae'n cynnwys lincs i'r canlyniadau pleidleisio llawn a lincs manwl i senedd.tv. Cyhoeddir atebion i Gwestiynau Llafar nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn o fewn 24 awr. Cyhoeddir y fersiwn derfynol ddwyieithog, gyda phob cyfraniad yn y ddwy iaith, o fewn tri diwrnod gwaith.

Rydym yn sicrhau bod trawsgrifiadau o gyfarfodydd pwyllgorau ar gael ar ffurf ddrafft o fewn tri i bum diwrnod gwaith, ac mae fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi o fewn 10 diwrnod gwaith, sy'n cynnwys y cyfieithiad o Gymraeg i Saesneg a ddarllledwyd yn ystod y cyfarfod.

### *Iaith Arwyddion Prydain*

Ym mis Ebrill 2016, yn dilyn penderfyniad S4C i gael gwared ar y rhaglen 'Y Dydd yn y Cynulliad' a oedd yn cynnwys dehongliad Iaith Arwyddion Prydain o Gwestiynau'r Prif Weinidog, cytunodd y Comisiwn, gan gydnabod yr angen, i gymryd y cyfrifoldeb dros weithredu a chyllido'r gwasanaeth hwn am gost o £15,000 y flwyddyn. Rydym yn darparu dehongliad Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer pob sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog; mae hyn yn dod i tua 5 y cant o gyfanswm busnes y Cynulliad, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Ofcom ar gyfer darllledwyr o 5 y cant o gyfanswm allbwn Iaith Arwyddion Prydain. Ar hyn o bryd, ni yw'r unig ddeddfwrfa yn y DU sy'n darparu'r gwasanaeth rheolaidd hwn. Rydym yn gwneud hyn drwy gofnodi Cwestiynau'r Prif Weinidog yn fyw ac yna rhoi amser i'r dehonglydd wyllo'r sesiwn cyn darparu'r dehongliad. Mae hyn wedi gwella cywirdeb ac ansawdd y gwasanaeth, y mae dehonglwyr a defnyddwyr wedi'i groesawu'n fawr. Mae'r sesiynau iaith arwyddion mewn man penodol ar senedd.tv (<http://www.senedd.tv/meeting/seneddexra>) ac ar ein sianel YouTube.



Yn flaenorol, rydym wedi ymchwilio i ymestyn darpariaeth dehongliad Iaith Arwyddion Prydain - i gynnwys trafodion ehangach y Cyfarfod Llawn ac i bwyllgorau. Fodd bynnag, mae gan y dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain bryderon gwirioneddol ynghylch eu gallu i ddehongli trafodaethau byw yn gywir, o ystyried cyflymder a chymhlethdod y trafodion. Mae ein hiaith seneddol a thechnegol yn achosi mwy o broblemau iddynt - rydym yn defnyddio termau nad oes cyfwerth Iaith Arwyddion Prydain ar eu cyfer ac, unwaith eto, mae'r her o ran y Gymraeg - nid yw pob dehonglydd yn siarad Cymraeg. O ganlyniad i hyn, hyd yma nid yw'r dehonglwyr wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau yn y meysydd hyn.

Rydym wedi ystyried ymestyn dehongliad Iaith Arwyddion Prydain i sesiynau Cwestiynau eraill y Gweinidog. Byddai hyn yn gofyn am fwy o ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain i gwmpasu'r oriau hwy (mae dehonglwyr yn gweithio am gyfnodau byr ar gylchdro) ac rydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn ychwanegu hyd at £40,000 y flwyddyn at y gost bresennol, ac y byddai angen darparu cyllideb ychwanegol ar ei gyfer.

### *Is-deitlau*

Rydym wedi bod yn ystyried cyflwyno is-deitlo ers 2014. Fodd bynnag, mae'r dechnoleg yn heriol o ran cywirdeb a chadw is-deitlau wedi'u cydamseru gyda thrafodion, yn enwedig pan fo mwy nag un person yn siarad. Mae gennym hefyd her ychwanegol o drafodion dwyieithog ac nid yw'r dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd yn cyfieithu'n ddigon cywir i fod yn ddibynadwy ac yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i wthio'r dechnoleg ac yn y misoedd nesaf byddwn yn gwerthuso trawsgrifiad byw o Ddatganiadau'r Gweinidogion a sesiwn llawn y Cyfarfod Llawn.

Rydym yn cyflwyno offer clipio a lawrlwytho ar gyfer senedd.tv a fydd yn ein galluogi i ddod o hyd i, dewis a thynnu darn o ffilm o gyfarfodydd. Yna byddem yn gallu is-deitlo'r clipiau llai hyn yn gywir, a'u cyhoeddi ar ein sianel YouTube.

### **Beth arall rydym yn bwriadu ei wneud?**

O fewn Senedd.tv rydym am roi rhestr chwarae benodol i fideos Iaith Arwyddion Prydain y mae'n hawdd dod o hyd iddi.



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Byddwn yn trydar pan fydd Cwestiynau'r Prif Weinidog ar gael yn Iaith Arwyddion Prydain ar YouTube.

Mae gennym nifer o fideos sy'n cynnwys iaith arwyddion y gellir eu hail-hyrwyddo'n rheolaidd, yn enwedig ar DyGynulliad.

Mae Allgymorth/Addysg yn gwneud llawer o waith allgymorth/addysg wedi'i deilwra mewn iaith Arwyddion Prydain - defnyddiwyd cynnwys fideo yn ddiweddar o sesiwn fel hyn i hyrwyddo ymgynghoriad Senedd Ieuencid. Cafodd ei dderbyn yn dda iawn a byddwn yn ymdrechu i wneud mwy o hyn.

### **Pethau eraill a wnawn i wneud gwahaniaeth**

Rydym yn ariannu dehongliad iaith Arwyddion Prydain ar gyfer y cyfarfodydd grŵp trawsbleidiol; pan fydd dadl yn ymwneud â materion byddar wedi'i drefnu, rydym yn sicrhau bod dehongliad ar gael; rydym wedi ariannu gwersi iaith Arwyddion Prydain ar gyfer staff y Cynulliad sy'n cwrdd â'r cyhoedd; ac mae dolenni clywed wedi'u gosod drwy'r adeilad, gan gynnwys ystafelloedd cyfarfod pwyllgorau ac orielau cyhoeddus.

Mae ein hymdrechion wedi'u cydnabod dro ar ôl tro gan yr elusen Action on Hearing Loss, sydd wedi achredu'r Cynulliad Cenedlaethol gyda'r Marc Siarter Yn Uwch na Geiriau, ac wedi ennill y categori Rhagoriaeth Gwasanaeth yng Ngwobrau Rhagoriaeth Action on Hearing Loss Cymru yn ddiweddar.

### **P-04-408 : Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc**

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ariannu'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru i'r un graddau â'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Oedolion yng Nghymru.

Daeth i'm sylw bod symiau gwahanol o arian yn cael eu rhoi i Wasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc ar gyfer ymdrin ag anhwylder bwyta. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Oedolion yn cael £1 filiwn y flwyddyn gan Gynulliad Cymru, yn ogystal â phedwar grŵp darparu a hyfforddwyd gan arbenigwyr. Yn anffodus, mae gwaith ymchwil yn nodi'r ffaith bod pobl yn fwyaf tebygol o gael eu profiad cyntaf o anhwylder bwyta, yn enwedig Anorecsia Nerfosa, yn ystod eu glaslencyndod. Yn hanesyddol, roedd pobl yn cyrraedd glaslencyndod pan oeddent rhwng 12 a 15 oed. Fodd bynnag, bellach, mae hyn yn digwydd pan fydd pobl yn llawer iau ac felly mae'r ystadegau'n dechrau dangos bod mwy o blant iau yn dioddef o Anorecsia Nerfosa. Bydd pobl fel arfer yn dechrau dioddef o Fwlimia Nerfosa pan fyddant rhwng 18 a 25 oed. Fodd bynnag, fel gydag Anorecsia, gall hyn amrywio o berson i berson. Mae'r ffaith mai cymryd camau buan yw'r allwedd i sicrhau gwellhad cyflym mewn perthynas â'r ddau anhwylder, ac, yn ddiaw, pob anhwylder bwyta y gellir ei ddiagnosio, sy'n atal goblygiadau ariannol hirdymor i'r Llywodraeth, yn gwneud y cais hwn yn fwy perthnasol. Felly, rwy'n ymbil ar y Cynulliad i ystyried hyn yn flaenoriaeth ar gyfer dadl i gael gwared ar y gwahaniaeth hwn drwy roi'r un swm o arian i'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc Nghymru ag a roddir i'r Gwasanaeth i oedolion.

**Cyflwynwyd y ddeiseb gan:** Helen Missen

**Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 17 Gorffennaf 2012

**Nifer y llofnodion:** . 246



Vaughan Gething AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/02740/17

David John Rowlands AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

6 November 2017

Dear David,

Thank you for your letter of 18 October on behalf of the Petitions Committee regarding Petition P-04-408 and the provision of Eating Disorder Services.

Eating disorders are debilitating long-term conditions which affect not only the individual but their family and friends. This is why ensuring services are able to react quickly and effectively to support the individual when they need it is a priority. To ensure this, in recent years we have invested £1million to establish adult treatment teams including £250,000 to improve provision for children and young people and most recently £500,000 recurrently from this year to strengthen the links between children's and adult services.

Our Together for Mental Health Delivery Plan 2016-2019 includes a commitment to consider reviewing the Eating Disorder Framework for Wales which was first published in 2009, in the light of new National Institute for Health and Clinical Excellence (NICE) guidance 'Eating disorders: recognition and treatment NICE guideline' [NG69] published in May 2017. The new guidance aims to improve care people by detailing the most effective treatments for anorexia nervosa, binge eating and bulimia nervosa.

My officials are currently in the process of discussing with health boards and others how best to take forward the review. I would expect the issues you raise to be considered as part of wider consideration on how services are currently delivered and what, if any changes are needed to ensure they are able to meet the best practice contained in the new NICE guidelines.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 72**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



I hope this information is helpful.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a prominent initial 'V'.

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services

**P-04-408 Child and Adolescent Eating Disorder Service – Correspondence from the petitioner to the Chair, 08.11.17**

Dear Mr Rowlands

Thank you, once again, for giving me the opportunity to respond to the recent letter received from Mr Vaughan.

I am at a loss as to how to keep telling you the same thing without boring you all to tears, but onward we shall go, until there is resolution to the primary request of this petition.

Mr Vaughan is correct in his assertion that 'eating disorders are debilitating illnesses', however they need not be 'long term' if treated effectively and with early intervention. It is well known that full recovery from an eating disorder can be, and should be expected.

The £1 million is exactly what this petition is all about, and whilst Mr Vaughan is seemingly applauding it, the truth is: the investment remains only for adult eating disorder services.

The £250,000 is only provided in South Wales, a fact that is beyond comprehension as Wales is a vast nation, and not just based in the south of the country. Unfortunately, Eating Disorders do not discriminate by geography.

The £500,000 provision is for the training and transition service, of which I sit on the committee to provide good use of the money and disseminate who should have the training, when and delivered by whom.

It is not for early intervention, which is still my fundamental cry through this petition.

The new NICE guidelines state:

1.2.1: People with eating disorders should be assessed and receive treatment at the earliest opportunity.

1.2.4: Although eating disorders can develop at any age, be aware that the risk is highest for young men and women between 13–17 years of age.

As Mr Vaughan also alludes to the refreshed framework for eating disorders I have provided it here for your interest, alongside the NICE guidelines (May 2017).

It may be of interest that I am on the committee for the integration of the NICE guidelines into Wales, plus am the carer that was used by Public Health Wales to speak at their service user days for the refresh document.

<https://www.nice.org.uk/guidance/ng69>

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160824eating-disorderen.pdf>

The stalling of the minister regarding further provision of funding specifically for early intervention in CAMHS is rather wearing. He fails to mention my specifics regarding the SPEED team in North Wales, and the fact that the outcome measures are looking good as far as treatment with a multi disciplinary approach to treating young people at the onset of the eating disorders is going. It may be prudent to obtain these figures from Dr Glaze and his team.

Thank you once again for your ongoing interest in seeing a resolution and further investment to early intervention in CAMHS.

As always, and Happy Christmas!

Helen Missen

# Eitem 3.3

## **P-05-761 Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Aled Thomas, ar ôl casglu 148 o lofnodion ar wefan e-ddeiseb arall.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru.

